Henry Richard, 1812–88
Gwleidydd, gweinidog ac 'Apostol Heddwch'

Ganwyd Henry Richard ar 3 Ebrill 1812 yn Prospect House, Tregaron, yn ail blentyn a mab hynaf Ebenezer Richard a Mary. Yr oedd ei dad yn ŵr diwylliedig iawn ac yn fab i athro cylchynol ysgolion Gruffudd Jones. Bu'n athro ac yn diwtor preifat i deulu Bowen, Llwynygwair, ac yr oedd ymhlith gweinidogion cyntaf y Methodistiaid Calfinaidd a ordeiniwyd ym 1811. Etifeddodd ei fam ystad ei brawd, a hyn a'i galluogodd i roi addysg dda i'w phlant. Cafodd Henry Richard yr addysg orau a gaed yng Ngheredigion ar y pryd, yn Ysgol Ramadeg Llangeitho ac yna yn Ysgol Mathemateg a Masnach John Evans yn Aberystwyth. Wedi gorffen yn yr ysgol bwriodd ei brentisiaeth fel dilledydd yng Nghaerfyrddin gan dreulio cyfnod yn gweithio yn Aberystwyth yn siop John Mathews y draper. Yna rhoddodd ei fryd ar y weinidogaeth ac aeth i Goleg Annibynnol Highbury yn Llundain.

Yno cafodd addysg yn y clasuron, athroniaeth, diwinyddiaeth ac ieithoedd modern, ac yn y cyfnod hwn yr heuwyd hadau ei ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth, hadau a eginodd ac a flodeuodd yn ddiweddarach yn ei oes. Yn 1835 ordeiniwyd ef yn weinidog ar eglwys yr Annibynwyr Saesneg, Marlborough Street yn yr Old Kent Road, Llundain, a bu yno hyd ei ymddeoliad o'r weinidogaeth ym 1850. Ym 1847 cyhoeddwyd yr Adroddiadau ar Gyflwr Addysg yng Nghymru (Brad y Llyfrau Gleision) ac ymatebodd Henry Richard yn egnïol iddynt trwy amddiffyn y Cymry a'u hiaith yn erbyn ymosodiadau enllibus yr adroddiadau. Penodwyd ef ym 1848 yn ysgrifennydd y Gymdeithas Heddwch ac fe ysgrifennodd, "Y mae'r Gymdeithas Heddwch yn croesawu unrhyw un sy'n caru Heddwch i ymaelodi, p'un ai ydynt yn derbyn y gred haniaethol ynglŷn â dyletswydd Gristnogol ar y pwnc ai peidio. Crëwyd y Gymdeithas i ysgogi barn gyhoeddus yn erbyn y Gyfundrefn Ryfel ac i annog mabwysiadu dulliau Cristnogol a theg i ddatrys anghytundebau rhyngwladol."

Roedd ef hefyd yn gyfrifol am barhad a datblygiad cyfres o gymanfaoedd heddwch pwysig a gynhaliwyd ym Mrwsel (1848), Paris (1849), Frankfurt (1850) a Llundain adeg yr Arddangosfa Fawr ym 1851. Bu hefyd yn gofalu am rai o gyhoeddiadau'r Gymdeithas. Ym 1866 cyhoeddodd y gyfrol *Letters a Essays on Wales*, a oedd, yn ôl Ieuan Gwynedd Jones, yn un o'r llyfrau pwysicaf am Gymru a gyhoeddwyd yn y 19eg ganrif. Ei fwriad oedd goleuo'r Saeson ynglŷn â'r Cymry, eu cyflwr cymdeithasol a'u gwleidyddiaeth, gan ei haddysgu am y math arbennig o genedlaetholdeb a fodolai mor agos atynt. Priododd yn Awst 1866 â Matilda Augusta Farley o Kennington, Llundain.

Etholwyd ef yn aelod seneddol Rhyddfrydol dros Ferthyr Tudful ym 1868. Safodd yn gadarn dros fuddiannau Cymreig ac Anghydffurfiol yn ystod ei dymor yn y Senedd ac yno hefyd, yng Ngorffennaf 1873, llwyddodd i gario mesur o blaid cyflafareddiad rhwng y gwledydd. Bu farw yng nghartref ei ferch yn Nhreborth, ger Bangor ar 20 Awst, 1888, ac fe'i claddwyd ym mynwent Abney Park, Llundain. Y mae cofgolofn iddo yno, a hefyd ar sgwâr Tregaron.